



Y CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWIYD DROS MICROSOFT TEAMS AR
DDYDD MAWRTH 2 MAWRTH 2021 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews - Maer
Y Cynghorydd J. Gale - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

M. Adams, E.M. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, P. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, M. Davies, T. Davies, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Forehead, J. Fussell, A. Gair, J. Gale, N. George, C. Gordon, R. Gough, L. Harding, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, B. Jones, S. Kent, G. Kirby, A. Leonard, P. Leonard, C. Mann, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, D. Poole, D. Preece, D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, R. Saralis, M.E. Sargent, J. Simmonds, G. Simmonds, S. Skivens, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski.

Ynghyd â:

C. Harry (Prif Weithredwr), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Adran 151), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau), K. Peters (Swyddog Polisi Corfforaethol) A. Cullinane (Uwch Swyddog Polisi) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

TREFNIADAU FFILMIO AR GYFER GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod drwy wefan y Cyngor – [Cliciwch yma i'w weld](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

ER COF

Dywedodd y Maer gyda thristwch fod Gareth Evans, Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgelloedd, wedi marw ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Cynhaliodd y Cyngor funud o dawelwch fel arwydd o barch.

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr: J. Bevan, D. Cushing, K. Dawson, D. Harse a hefyd gan D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol)

2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Dyweddod y Maer, gyda gofid, oherwydd y cyfyngiadau parhaus nad oedd unrhyw gyhoeddiadau y tro hwn.

3. I DDERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Ni chafwyd unrhyw ddeiseb.

4. CYFLWYNO GWOBRAU

Cydnabu'r Cyngor Lauren Roberts-Orford, enillydd Cystadleuaeth Gwaith Celf Gofalu am Gaerffili. Dywedwyd wrth yr aelodau bod ei dyluniad unigryw wedi cael ei hongian yn Siambr y Cyngor i goffáu'r foment mewn hanes pan baentiodd plant enfysau, pan dynnodd cymunedau at ei gilydd a phan fu pawb yn curo dwylo i gydnabod y GIG a Gweithwyr Allweddol. Nodwyd mai dyluniad Lauren yw'r darn cyntaf o waith celf i'w hongian yn Siambr y Cyngor.

Ymunodd yr Aelodau mewn rownd o gymeradwyaeth i gydnabod darlun gwych Lauren a'i chyflawniad rhagorol.

5. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gofynnwyd am eglurhad gan y Cynghorydd C. Bezzina, fel un o weithwyr Unsain, a oedd yn ofynnol iddi ddatgan buddiant mewn perthynas ag Eitem Rhif 7 yr Agenda - Cyhoeddi'r Datganiad Polisi Cyflog 2021/22. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro, gan fod y Datganiad Polisi Cyflog yn ddatganiad o ffaith, nad oedd yn ofynnol iddi hi na Swyddogion y Cyngor ddatgan buddiant yn y mater hwn.

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiant eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

6. COFNODION – 19 IONAWR 2021

Er nad yw wedi'i gysylltu â chofnodion 19 Ionawr 2021, cyfeiriodd y Cynghorydd S. Morgan, gyda chytundeb y Maer, at ddadl gan y Cyngor Arbennig ar 24 Chwefror 2021 pan ymddiheurodd am gamddehongli sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd J.E Fussell yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Craffu ar 22 Chwefror 2021. Ar ôl adolygu recordiad cyfarfod y Cyd-bwyllgor Craffu, safodd y Cynghorydd Morgan wrth ei ddealltwriaeth o'r mater, tynnodd ei ymddiheuriad yn ôl, a galwodd ar y Cynghorydd Fussell i ymddiheuro am gamarwain y Cyngor.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Fussell na fyddai'n gwneud sylwadau pellach ar y mater nes iddo gael cyfle i adolygu'r recordiad, ac na fyddai'n tynnu'n ôl nac yn cynnig ymddiheuriad i'r Cyngor ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Mann, y galwyd arno hefyd am sylwadau, y byddai'n cadw barn ar y mater nes ei fod ef hefyd wedi adolygu'r recordiad.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2019 (cofnodion 1-15).

7. CYHOEDDI DATGANIAD POLISI CYFLOG 2021/22

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i gyhoeddi Datganiad Polisi Cyflog yr Awdurdod 2021/22.

Nodwyd bod cyhoeddi'r Datganiad Polisi Cyflog yn ofyniad deddfwriaethol ac mae'n cynnwys manylion llawn am sefyllfa cydnabyddiaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2021/22.

Fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 1 wedi ymatal, cytunodd y mwyafrif a oedd yn bresennol ar hyn.

PENDERFYNWYD:-

1. Bod y Datganiad Polisi Cyflog 2021/22 (Fersiwn 10) yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.
2. Cytunir ar daliadau cyfradd Cyflog Byw Sylfaenol o £9.50 yr awr o 1 Tachwedd 2020.
3. Caiff yr holl gynnydd i'r gyfradd cyflog byw sylfaenol fesul awr, y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn y dyfodol, eu talu'n awtomatig.

8. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR I ADLEWYRCHU CYNNWYS Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL YN NHEMPLED YR ADRODDIAD

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a roddodd wybod i'r Cyngor am y newidiadau a gynigiwyd i'r Templed Adroddiad oherwydd gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a fyddai'n dod i rym ar 31 Mawrth 2021. Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth y Cyngor i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro ddiwygio'r cyfansoddiad er mwyn ymgorffori templed yr adroddiad wedi'i ddiweddarau.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch nodau cyffredinol y ddyletswydd newydd. Cadarnhaodd swyddogion y byddai hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, drwy sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol yn ystyried tystiolaeth ac effeithiau posibl drwy ymgynghori ac ymgysylltu, ac yn deall anghenion a safbwyntiau'r rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt.

Nododd yr Aelodau beth fyddai'n cael ei ystyried yn benderfyniadau strategol o ran y ddyletswydd newydd, a mynegwyd pryderon ynghylch effaith y broses asesu newydd. Cyfeiriwyd at Fyrddau Partneriaeth a sut na chafodd y penderfyniadau a wnaed yno eu hadrodd yn ôl i Waith Craffu Awdurdodau Lleol tan ddyddiad llawer diweddarach, rhywbeth a fu'n destun pryder ers tro byd.

Roedd swyddogion yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud, fodd bynnag, wrth i ddarnau pellach o deddfwriaeth ddod i rym, byddai'r gwahanol elfennau'n dod at ei gilydd, gan wneud y broses yn fwy cadarn a chaniatáu mwy o gyfleoedd i graffu cyn penderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo ac ar ffurf Microsoft Forms a chadarnhad llafar ac wrth nodi bod 1 wedi ymatal, roedd y mwyafrif a oedd yn bresennol wedi cytuno ar hyn.

PENDERFYNWYD y dylid nodi a chymeradwyo'r newidiadau i dempled yr adroddiad yn Atodiad 1, a bod Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i ddiweddarau'r Cyfansoddiad er mwyn ymgorffori'r templed newydd, gan gynnwys y fersiwn derfynol yr Asesiad Effaith Integredig llawn.

9. FFRAMWAITH LLES A LLUNIO LLEOEDD CAERFFILI

Nododd y Cyngor yr adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol i Gyd-bwyllgor Craffu ar 22 Chwefror 2021 a'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 24 Chwefror 2021.

Darparodd yr Arweinydd grynodedb i'r Cyngor o'r rhaglen uchelgeisiol a'r prosiectau a fyddai'n cael eu cyflwyno.

Diolchodd yr Aelodau i'r Arweinydd am ei datganiad a gofynnwyd am sicrwydd y byddai ystyriaeth ddifrifol yn cael ei rhoi i rwydwaith beicio a chadarnhawyd y byddai hyn yn wir yn rhan o'r Cynllun Teithio Llesol.

Yna gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer Canol Tref Caerffili a gwnaed cais y dylai wardiau cyfagos fod yn rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer yr holl gynigion sydd ar ddod. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai Aelodau Wardiau Lleol yn rhan sylfaenol o'r broses wrth symud ymlaen a byddai hyn yn bendant yn cynnwys Aelodau Ward cyfagos. Diolchodd yr Aelod i'r Arweinydd am y sicrwydd a roddwyd.

Nodwyd yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:50pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod i'w gynnal ar 13 Ebrill 2021, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

MAER